

SiCs • Llawlyfr yr offeryn hunan werthuso ar gyfer lleoliadau gofal sy'n canolbwyntio ar brosesau:

ARWYDDION Lefel Lles

1 – Isel iawn

Mae'n amlwg bod y plentyn yn dangos arwyddion o fod yn anniddig:

- yn griddfan, yn wylo, yn crio, yn sgrechian;
- golwg digalon, trist neu ofnus neu mewn panig;
- yn ddig neu'n gynddeiriog;
- yn gwneud ystumiau, yn symud traed, yn taflu gwrthrychau, yn anafu eraill;
- yn sugno'i fys bawd, yn rhwbio'i lygaid;
- nid yw'n ymateb i'r amgylchedd, mae'n osgoi cysylltiad, yn encilio;
- yn gwneud niwed iddo/iddi ei hun: yn curo'i ben/phen, yn ei fwrw/bwrw ei hun i'r llawr

2 - Isel

Mae osgo, pryd a gwedd ac ymddygiad y plentyn yn dangos nad yw'n teimlo'n gartrefol. Fodd bynnag, nid yw'r arwyddion mor amlwg â'r rheini o dan lefel 1 neu nid yw'n mynegi teimlad o anniddigrwydd gydol yr adeg.

3 - Cymedrol

Mae osgo'r plentyn yn un niwtral. Mae pryd a gwedd ac osgo'r plentyn yn dangos ychydig iawn o emosiwn os o gwbl. Nid oes unrhyw arwyddion o dristwch na phleser, bodlonrwydd nac anniddigrwydd.

4 - Uchel

Mae'r plentyn yn dangos arwyddion amlwg o fodlonrwydd (gweler y rhestr o dan lefel 5). Fodd bynnag, nid yw'r arwyddion hyn i'w gweld yn gyson i'r un graddau.

5 – Uchel iawn

Yn ystod y cyfnod arsylwi, mae'r plentyn yn mwynhau, yn wir mae wrth ei fodd:

- mae'n ymddangos yn hapus a serchog, yn gwenu, ac yn llefain o lawenydd;
- mae'n ddigymell, yn ei fynegi/mynegi ei hun ac yn gwbl naturiol;
- yn siarad â'i hun, yn chwarae â synau, yn hymian canu;
- yn hamddenol, nid yw'n dangos unrhyw arwyddion o straen na thensiwn;
- yn agored i'r amgylchedd ac mae'n hawdd cyfathrebu ag ef/hi;
- yn fywiog, yn llawn egni, yn serennu;
- yn mynegi hunan hyder a sicrwydd.

Enghreifftiau o Lefelau Ymglymiad

1 – Isel iawn

Braidd na welir unrhyw weithgarwch ar ran y plentyn;

- nid yw'n canolbwyntio: yn syllu, yn breuddwydio;
- agwedd absennol, oddefol;
- dim gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar nod, gweithgarwch diamcan, nad yw'n esgor ar unrhyw beth;
- dim arwydd o archwilio nac o ymddiddori;
- nid yw'n cymryd unrhyw beth i mewn, dim gweithgarwch meddwl.

2 - Isel

Mae'r plentyn yn dangos rhywfaint o weithgarwch ond amherir ar hyn yn aml:

- canolbwyntio cyfyngedig: yn edrych i ffwrdd yn ystod y gweithgarwch, yn aflonydd, yn breuddwydio;
- hawdd tynnu sylw'r plentyn;
- dim ond canlyniadau cyfyngedig a gyflawnir gan y gweithgarwch.

3 - Cymedrol

Y plentyn yn brysur drwy'r adeg, ond heb ganolbwyntio'n wir:

- gweithgarwch arferol, sylw arwynebol;
- heb ymroi i'r gweithgarwch, yn rhoi'r gorau iddi yn fuan;
- cymhelliant cyfyngedig, diffyg ymroddiad go iawn, nid yw'n cael ei herio;
- nid yw'r plentyn yn cael profiadau ar lefel ddofn;
- nid yw'n defnyddio ei allu/gallu i'r eithaf;
- nid yw'r gweithgarwch yn tanio dychymyg y plentyn.

4 - Uchel

Arwyddion amlwg o ymwneud, ond nid yw'r rhain yn bresennol i'r eithaf bob tro:

- mae'r plentyn yn cyflawni'r gweithgarwch heb golli diddordeb;
- gwelir canolbwyntio go iawn y rhan fwyaf o'r amser, ond yn ystod rhai cyfnodau byr mae'r sylw yn fwy arwynebol;
- mae'r plentyn yn cael her, mae rhywfaint o gymhelliant;
- mae galluoedd a dychymyg y plentyn yn cael eu symbylu i ryw raddau gan y gweithgarwch.

5 – Uchel iawn

Yn ystod y cyfnod arsylwi mae'r plentyn yn ymwneud yn ddi-dor â'r gweithgarwch ac mae'n canolbwyntio'n llwyr arno:

- yn canolbwyntio'n llwyr, yn cynnal sylw heb ymyrraeth;
- yn uchel ei gymhelliant, yn teimlo'n gryf, y gweithgarwch yn apelio, yn dal ati;
- ni all hyd yn oed symbyliadau cryf dynnu'i sylw;
- yn effro, yn sylwi ar fanylion, yn gywir iawn;
- gweithgarwch a phrofiad meddwl dwys;
- mae'r plentyn yn defnyddio pob un o'i alluoedd yn barhaus: mae'r dychymyg a'r gallu meddwl ar eu huchaf;
- yn amlwg yn mwynhau ymroi i'r gweithgarwch.

